

# Cefn Gwlad Sir Fynwy Monmouthshire Countryside



monmouthshire  
sir fynwy

**Cylchlythyr ar gyfer Gwirfoddolwyr a Chyfeillion Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Fynwy  
Rhifyn 30** **Rhagfyr 2016**

## Cyfarchion y Tymor

Wrth i ni gyrraedd diwedd 2016, hoffwn i a'r holl dîm cefn gwlad ddiolch i bawb ohonoch am eich cefnogaeth barhaus fel gwirfoddolwyr a phartneriaid. Rydym yn ddiolchgar tu hwnt i chi am eich cyfraniad at reoli cefn gwlad Sir Fynwy, sy'n ein helpu i gyflwyno gwasanaeth gwell a mwy helaeth.

Dymunwn Nadolig llawen a hamddenol i chi ac edrychwn ymlaen at barhau i gydweithio yn 2017.

**Matthew Lewis, Rheolwr Cefn Gwlad**



Os oes gennych sylwadau neu gwestiynau neu os hoffech gyfrannu at gylchlythrau'r dyfodol, cysylltwch os gwelwch yn dda â Morag Sinton, Cydlynnydd Gwirfoddolwyr Cefn Gwlad ar 01633 644663 neu [moragsinton@monmouthshire.gov.uk](mailto:moragsinton@monmouthshire.gov.uk)

## Adolygu cynllun gwella hawliau tramwy y Cyngor

Mae Cyngor Sir Fynwy yn gwahodd preswylwyr, busnesau a sefydliadau i roi sylwadau ar yr adolygiad o'i Gynllun Gwella Hawliau Tramwy (RoWiP). Cyhoeddwyd y cynllun amlinellol ar wefan y cyngor – <http://www.monmouthshire.gov.uk/?p=39506> – a gellir anfon sylwadau at [countryside@monmouthshire.gov.uk](mailto:countryside@monmouthshire.gov.uk) unrhyw bryd hyd ddydd Sul 29 Ionawr.

Dywedodd Ruth Rourke, Prif Swyddog Mynediad Cefn Gwlad Sir Fynwy: “Gwahoddwn gynifer o grwpiau, unigolion a sefydliadau ag sydd modd i gyfrannu at yr adolygiad o'n Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Croesawn eich sylwadau ac unrhyw wybodaeth y gallech fod gennych i'w rhoi i ddogfen RoWiP newydd fydd yn gwasanaethu cymunedau'r sir i'r dyfodol.”

## Gofal Llwybrau

### Swyddi Gwag ar gyfer Gofal Llwybrau

Rydym yn ddiolchgar iawn am holl waith Alan Cunningham dros y blynyddoedd gyda thîm cynnal a chadw Hawliau Tramwy a Llwybrau Gofal. Gan fod Alan yn awr yn ymddeol fel gwirfoddolwr, rydym yn edrych am bobl i ofalu am y llwybrau dilynol:

- Ysgyryd Fach (3.4 milltir)
- Llandeilo Croesenni i'r Castell Gwyn (5 milltir).

Gadewch i Morag wybod os gwelwch yn dda os oes gennych ddiddordeb yn un o'r llwybrau hyn.

## Gwiriad Gofal Llwybrau yr Hydref

Diolch i'r holl wirfoddolwyr a gynhaliodd wiriadau ar y llwybrau ym mis Mehefin a Gorffennaf. Fe dreuliodd gwirfoddolwyr 176 awr yn gofalu am 36 llwybr, ymdrech wych sy'n helpu i gadw'r llwybrau ar agor ac mewn cyflwr da.

## Grŵp Cerdded Gofal Llwybrau

Ers mis Medi mae Grŵp Cerdded Gofal Llwybrau wedi cwblhau saith taith gerdded ar ddyddiau Mercher, gan ofalu am llwybrau wrth i ni fynd. Mae'r lluniau'n dangos rhai o'n teithiau diweddar ar Lwybr Dyffryn Gwy, Lwybr Dyffryn Mynwy (Alarch) a llwybr Gofal Llwybrau 25 Tregar a



Phenrhos. Gadewch i Morag wybod os oes gennych ddi-ddordeb yn y Grŵp.



## Gwneud Ffilm ar gyfer Cyfryngau Cymdeithasol

*Daeth yr wybodaeth ddilynol o Brosiect Datblygu Gwledig Sir Fynwy. Fe'i hanelwyd at Lysgenhadon Twristiaeth yn y lle cyntaf, ond byddem yn ddiolchgar pe byddech yn mynegi diddordeb os credwch y gallech gyfrannu at y prosiect.*

Mae gennym brosiect hyfforddiant newydd cyffrous yn dechrau yn y Flwyddyn Newydd. Rydym yn edrych am Lysgenhadon a hoffai gymryd rhan mewn ymgyrch marchnata cyfryngau cymdeithasol i annog ymwelwyr i ddod yma yn ystod 2017 (Blwyddyn Chwedlau Croeso Cymru) a 2018 (blwyddyn Cymru Forwrol).

Y syniad yw bod Llysgenhadon yn gwneud argymhellion personol am eu hoff leoedd chwedlonol, digwyddiadau tymhorol, gemau cudd, y llwybrau cerdded gorau mewn pytau ffilm byr (30-90 eiliad), y gallant ei lanlwytho i Facebook, Youtube a Twitter. Caiff y pytau eu ffilmio gan Lysgenhadon, drwy lygaid Llysgenhadon, gwahodd ymwelwyr i ddod i'w weld, ei deimlo, rhoi cynnig arno, ei flasau, ei gerdded!

Rydym yn cynnig hyfforddiant ar gyfer darpar wneuthurwyr ffilm, cyflwynwyr a golygyddion, neu bobl a hoffai ddysgu mwy am sut i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r ardal. Mewn gwirionedd, unrhyw Lysgenhad sy'n dymuno cymryd rhan a charu eu cariad at y fan lle maent yn byw a gweithio. Bydd yr hyfforddiant yn cynnwys ffilmio (yn defnyddio ffonau symudol ac iPads yn ogystal â camerâu 'go iawn'), golygu a lanlwytho, technegau cyfryngau cymdeithasol a thripiâu cyfarwyddo. Bydd offer, yn cynnwys camerâu Go Pro a meddalwedd golygu, ar gael i Lysgenhadon eu defnyddio.

Bydd cymorth a chefnogaeth gan gwmni hyfforddiant ffilm ac mae gennym arbenigwr ar y cyfryngau cymdeithasol fydd yn cynnig cyngor a hyfforddiant i Lysgenhadon i sicrhau'r budd mwyaf posibl o'r ymgyrch. Bydd Ruth Waycott yn cydlynu'r prosiect hyfforddiant.

Os hoffech gymryd rhan, fe'ch gwahoddir i gofrestru eich diddordeb gyda Ruth drwy grŵp Facebook y Llysgenhadon neu [ruth@wyeknottourism.co.uk](mailto:ruth@wyeknottourism.co.uk). Rydym angen cael syniad o bwy sydd â diddordeb **yn awr**, fel y gallwn gwblhau manylion ar gyfer sesiwn 'dwylo ymlaen' i lansio'r rhaglen ym mis Ionawr. Edrychwn ymlaen at glywed gennych!

ON. Daw'r cyllid ar gyfer y prosiect o Raglen Leader Cynllun Datblygu Gwledig Dyffryn Wysg..



Volunteers Simon, Dave and David with a newly installed interpretive panel on Castle Meadows, Abergavenny.

## Cyfleoedd Gwirfoddoli yng Nghastell Cil-y-coed

Mae Castell a Pharc Gwledig Cil-y-coed yn atyniad prysur i ymwelwyr ar gyrion Cil-y-coed. Adeiladwyd y castell ddechrau'r canol oesoedd ac mae yng nghanol 60 erw o barc gwledig hardd. Mae gan y castell amgueddfa a chaffe ac mae llawer o ymwelwyr amrywiol yn ymweld ag ef. Mae'r safle'n cynnal amrywiaeth o ddiwyddiadau, o ffeiriau canoloesol i groesawu cerddorion rhyngwladol.

Bu'r castell yn ganolbwynt ar gyfer y gymuned leol ers cenedlaethau ac rydym yn awyddus i roi cyfleoedd i bobl ddod ynghyd mewn amgylchedd cymdeithasol a hefyd amgylchedd gwaith. P'un ai oes gennych ddi-ddordeb mewn helpu pobl eraill i ddysgu mwy am ein hanes, yn awyddus i gael profiad o weithio yn y parc gwledig a gerddi cymunedol, wrth eich bodd yn sgwrsio gyda'n hymwelwyr dros ddisgled o de neu yr hoffech fod yn rhan o'n digwyddiadau mawr, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.

Cysylltwch â Kate i gael mwy o wybodaeth. [kateedwards@monmouthshire.gov.uk](mailto:kateedwards@monmouthshire.gov.uk) 01291 420241

## Gwaith Papur Gwirfoddolwyr

Gyda diwedd blwyddyn arall ar ein gwarthaf, mae'n amser gwneud yn siŵr bod ein ffeiliau yn gyfredol. Byddwch yn derbyn ceisiadau yn fuan ar gyfer eich dalenni amser chwarterol ac i chi ddiweddarau eich manylion, a byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech lenwi a'u dychwelyd cyn gynted ag sy'n bosibl. Byddwn wedyn yn anfon eich cerdyn adnabod ar gyfer 2017 yn y Flwyddyn Newydd.

## Gwobrau Cyflawniad Gwirfoddolwyr Sir Fynwy

Bu grwpiau yn gysylltiedig gyda'r Gwasanaeth Cefn Gwlad yn llwyddiannus iawn yn y categori Amgylcheddol yn y seremoni Gwobrau Gwirfoddolwyr blynyddol a gynhaliwyd yn Neuadd Côr Cil-y-coed ddydd Gwener 25 Tachwedd 2016. Caiff y Gwobrau eu cynnal gan GAVO (Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent) bob blwyddyn i ddathlu'r rhai sy'n rhoi eu hamser a'u sgiliau i gael argraff gadarnhaol yn ein cymunedol.

Cafodd **Cyfeillion Dolydd y Castell** Gymeradwyaeth Uchel am eu holl waith i wella'r ardal arbennig hon yn nhirlun y Fenni dros y chwe blynedd ddiwethaf. Mae hyn yn cynnwys rheoli ffromlys chwarennog, bod yng ngofal Coedlan y Castell, trefnu rhaglen o deithiau cerdded a sgysiau a datblygu grŵp Cyfeillion Ifanc gydag ysgolion lleol.



Derbyniodd **Grŵp Gofal Llwybrau Cymuned Llanbadog** hefyd Gymeradwyaeth Uchel, yn neilltuol am eu gwaith parhaus ar Lwybr y Gronfa Ddŵr yn Llandegfedd.



Yr enillwyr yn y categori hwn

oedd **Gwirfoddolwyr Cefn Gwlad GDAS** Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent. Bu grŵp bach o ddefnyddwyr gwasanaeth a'u goruchwylwyr yn gwirfoddoli gyda Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Fynwy, Cadw Cymru'n Daclus a Tai Sir Fynwy am ddeng mlynedd neu fwy. Gan weithio ar brosiectau ym mhob rhan o'r sir o fudd i breswylwyr, ymwelwyr, bywyd gwylt a'r amgylchedd yn gyffredinol, mae aelodau'r grŵp eu hunain yn cael budd wrth iddynt gynyddu eu hunanhyder, dysgu sgiliau newydd ac atal unigrwydd.



## Cod Cefn Gwlad

Mae taflenni Cod Cefn Gwlad wedi'u diweddarau, a gyhoeddwyd ym mis Hydref, ar gael yn <https://www.gov.uk/government/publications/the-countryside-code>. Mae'r Cod hefyd ar gael ar ffurf gwefan, pdf ac fel nod llyfrau!

## Teithiau Tywys

Mae'r Gwasanaeth Cefn Gwlad yn trefnu rhaglen o deithiau cerdded a gynhelir fel arfer ar ddydd Sadwrn cyntaf a thrydydd dydd Sul pob mis. Mae arweinwyr y teithiau cerdded yn wirfoddolwyr cefn gwlad, sy'n dod â'u harbenigedd a'u gwybodaeth leol. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â Mark Langley, Prif Warden Cefn Gwlad, 01291 691237 os gwelwch yn dda.



## **Dydd Sadwrn 7 Ionawr 2017 “Taith Gerdded Ardal Pentref Llandogo”**

**10.30am (tua 1.5 awr)**

Mae'r llwybr 3 milltir (5km) yma'n dilyn yr Afon Gwy ac yna'n codi'n raddol drwy goedwig i gyrraedd pen uchaf y pentref a gostwng lawr Rhaeadrau Cleddon yn ôl i'r man dechrau. Mae dwy gamfa a llwybr serth. Dewch â chinio pecyn a diod. Cwrdd ym maes parcio Neuadd Pentref Llandogo (SO 526 041) Cod Post NP25 4SR.

## **Dydd Sul 22 Ionawr 2017 “Chwilio am Charles Rolls”**

**10.30am (tua 4 awr)**

Ar y daith cylch 6 milltir (10km) yma byddwn yn teithio ar draws caeau i'r eglwys yn Llanfocha. Byddwn wedyn yn mynd drwy gaeau a lonydd, gan fwynhau golygfeydd gwych ar draws i'r Fenni a'r Mynydd Du ar hyd y ffordd i gyrraedd yr Hendre, fu unwaith yn gartref i Charles Rolls. Gan groesi mwy o gaeau, byddwn yn cyrraedd yr eglwys yn Llangatwg Feibion Afel lle mae bedd Charles Rolls a chofeb hardd i'r rhai a syrthiodd yn y Rhyfel Byd Gyntaf.

Llawer o gamfeydd. Dewch â chinio pecyn a diod. Cwrdd ym maes parcio Ysgol Montessorri yn Llangatwg Feibion Afel ([SO 458 159](https://www.gov.uk/road-signs/so-458-159)) Cod Post NP25 5NG.

## **Dydd Sadwrn 4 Chwefror 2017 “Afon, castell a bryngaer hynafol”**

**11.00am (tua 4 awr)**

Mae'r llwybr 6 milltir (9.5km) yma'n dilyn Llwybr Dyffryn Wysg i'r Bont Gadwyn ac yna'n gadael yr afon i fynd drwy Betws Newydd a bryngaer Coed y Bwnydd o'r Oes Haearn cyn pasio Castell Clytha a dychwelyd i'r maes parcio.

Un llethr serth a llawer o gamfeydd. Dewch â pheccyn cinio a diod. Gadael yr hen ffordd o'r Rhaglan i'r Fenni wrth y troad gyda'r arwydd "Betws Newydd". Parcio ym maes parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar y dde ar ôl 400 metr ([SO 361 085](https://www.gov.uk/road-signs/so-361-085)). Cod post NP7 9BW.

## **Dydd Sul 19 Chwefror 2017 “Afon, eglwys ac aneddiad anghyfannedd”**

**10.00am (tua 5 awr)**

Mae'r daith 10 milltir (16 km) yn mynd â ni ar hyd afonydd yr Afon Wysg, heibio eglwys hynafol Sant Pedr, Llanwenarth Citra. Byddwn yn parhau i fyny llethrau is mynydd Pen-y-fâl i gyrraedd aneddiad anghyfannedd Y Graig. Ar ôl cinio yn y Graig, byddwn yn mynd yn ôl i'r Fenni. 1 llethr serth a llawer o gamfeydd. Llawer o gamfeydd. Dewch â chinio pecyn a diod. Cwrdd yn y maes parcio ger yr Orsaf Bysus a'r Ganolfan Croeso yn y Fenni ([SO 330 142](https://www.gov.uk/road-signs/so-330-142)). Cod post NP7 5HF.

## **Gwefannau a'r Rhyngrwyd**

Mae rhai ffurflenni ar gyfer gwirfoddolwyr (hawlio treuliau, dalen amser, ffurflen arolwg Gofal Llwybr) ar gael i'w lawrlwytho'n uniongyrchol o wefan Cyngor Sir Fynwy [yma](http://www.monmouthshire.gov.uk).

Gallwch hefyd weld copi gwaith o'n map diffiniol o hawliau tramwy cyhoeddus yn <http://access.monmouthshire.gov.uk>, lawrlwytho tudalennau i'w hargraffu a rhoi adroddiad am unrhyw broblemau a welwch.

Mae gwybodaeth a dogfennau hefyd ar gael o wefan Cefn Gwlad Sir Fynwy ar hyn o bryd - <http://www.monmouthshirecountryside.wordpress.com>. Caiff llawer o gynnwys y safle ei symud i wefan Ymweld â Sir Fynwy [www.visitmonmouthshire.com](http://www.visitmonmouthshire.com) yn y dyfodol agos.

## **Manylion Cyswllt**

Gwsanaeth Cefn Gwlad, Cyngor Sir Fynwy, Blwch Swyddfa'r Post 106, Cil-y-coed, Sir Fynwy NP26 9AN. 01633 644850 [countryside@monmouthshire.gov.uk](mailto:countryside@monmouthshire.gov.uk)

Morag Sinton, Cydlynnydd Gwirfoddolwyr  
01633 644663 [moragsinton@monmouthshire.gov.uk](mailto:moragsinton@monmouthshire.gov.uk)